Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 14eg o Fedi 2011 am 7.50yh.

Presennol: Y Maer, y Cyng. Julia Jones, y Dirprwy Faer, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Christoher Parish, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. David Williams, y Cyng. Fran Murphy.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Roy Davies

Cof 148/ Medi /11 I gadarnhau Cofnodion y Cyfarfod Arbennig, a gynhaliwyd ar y 24ain o Awst 2011.

Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain o Awst 2011, yn y Siambr yn Neuadd y Sir, yn cael eu derbyn fel cofnod cywir. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 149/ Medi /11 I gadarnhau strwythur y cyfarfod Cyhoeddus arfaethedig, a fwriedir ei gynnal ar y 5ed o Hydref 2011.

Adroddodd y Clerc am yr ohebiaeth a dderbyniodd oddi wrth Mr Simon Buckley, mewn perthynas â gwrthwynebiadau i ddatblygiad Sainsbury's. Ysgrifennodd Mr Buckley ei fod wedi trefnu ei gyfarfod Cyhoeddus ei hun, a fyddai'n cael ei gynnal ar y 29ain o Fedi 2011. Dywedwyd wrth y Clerc fod grŵp arall wedi cael ei ffurfio, yn dwyn y teitl 'Save Our Llandeilo'. Roedd y grŵp hwn yn trefnu cyfarfod Cyhoeddus hefyd, a fyddai'n cael ei gynnal ar yr 28ain o Fedi 2011.
Cynigodd y Cyng. Fran Murphy bod y Cyngor yn gwahodd un cynrychiolydd o'r grwpiau sy'n gwrthwynebu datblygiad Sainsbury's i roi cyflwyniad yn y cyfarfod Cyhoeddus a drefnwyd gan y Cyngor Tref ar y 5ed o Hydref 2011. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Adroddodd y Clerc bod Mr Richard Brown o Sainsbury's wedi cytuno i roi cyflwyniad ar ran Sainsbury's.
Cynigodd y Cyng. Christopher Parish bod un o drigolion y Dref sydd o blaid datblygiad Sainsbury's yn cael cyfle i siarad yn y cyfarfod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Cynigodd y Cyng. David Williams y gellid gofyn i Elinor Jones i fod yn Gadeirydd ar y cyfarfod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Cynigodd y Cyng. Fran Murphy y gellid gofyn i Mr Keith Towler i fod yn Gadeirydd pe na fyddai Mrs Jones ar gael. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
Byddai'r Clerc yn paratoi taflenni a phosteri i hysbysebu'r Cyfarfod Cyhoeddus.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20yh.